**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 6ED MEHEFIN 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd J. Davies,
Y Cynghorwyr Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R. Foreman, D. Griffiths, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, Mrs H. Meredith, A. Pearson, J. Pearson, Mrs V. Perry, P. Richards , Dr S. Roy, S. Taylor, G. Ward, S. Williams.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dr Singh, Dr Nagarej a Mr Anderson, Meddygfa Bae Penrhyn, Dr Parry, Dr Ratchford a Dr Roberts, Meddygfa Cadwgan ac Aelodau o'r Wasg

**53/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr W. Bagnall, C. Hughes, A. Khan, A. Mason, C. Perry, Mrs V. Smith a C. Wood.

**54/16 Cyhoeddiadau:**

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

**55/16 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**56/16 Ymwelwyr â'r Cyngor:**

**a.** Croesawyd cynrychiolwyr o feddygfeydd Bae Penrhyn a Chadwgan i'r cyfarfod gan y Maer. Fe'u gwahoddwyd hwy, ynghyd a chynrychiolwyr o feddygfeydd eraill oedd yn ymdrin â thrigolion Bae Colwyn, i annerch y Cyngor am unrhyw bryderon oedd ganddynt ar hyn o bryd am recriwtio meddygon teulu.

Yn gyntaf, fe wahoddwyd Dr Singh i siarad, ac fe amlinellodd y materion a godwyd yn nhaflen newyddion diweddaraf ei feddygfa a ddaeth i sylw'r Cyngor Tref ac a amlygodd yr anawsterau a wynebir oherwydd y nifer o feddygon teulu sy'n ymddeol, yr anawsterau o recriwtio meddygon teulu newydd, y cynnydd yn y gymhareb rhwng cleifion / meddygon a'r her i barhau i gyflwyno safon dda o ofal. Cyfeiriodd at y gostyngiad yng nghyllidebau gofal iechyd a'r cynnydd yn y galw am ofal cychwynnol oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio. Eglurodd Dr Singh bod ei feddygfa ef wedi penderfynu fod yn adweithiol trwy esbonio'r anawsterau a'r heriau hyn i gleifion a thrwy gefnogi mentrau'r Bwrdd Iechyd i greu cysylltiadau agosach gyda nyrsio, ffisiotherapi, gwasanaethau cymdeithasol a therapi galwedigaethol a.y.b. er mwyn esmwytho'r pwysau ar feddygon teulu.

Yna gwahoddwyd i'r Aelodau ofyn cwestiynau a bu'r rhain yn ymwneud a'r materion / pryderon canlynol: colli meddygon teulu a'r anawsterau o gael gweld meddyg teulu - ymateb Dr Singh oedd bod cymdeithas wedi newid a bod yna rŵan fwy o fonitro gofal ac anogaeth i gwyno ac mae hyn o help i godi safonau, ond er y nifer o bethau cadarnhaol a ddaw o hyn, bu hefyd dirywiad graddol yn y

gwerth a roddwyd i'r proffesiwn ar un adeg. Dywedodd hefyd bod polisïau yn cael eu pennu gan ganllawiau, a bod y rhain yn cael eu gwneud am un cyflwr ac nid ydynt yn ystyried hanes meddygol cymhleth y cleifion; holwyd a oedd presgripsiynau rhad wedi ychwanegu at y pwysedd ar feddygon teulu - ymateb Dr Singh oedd mai yn ei farn ef, bod pobl yn dod i'w weld gyda hanesion a phroblemau nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud a chael presgripsiynau; pa mor agos at dorbwynt yw meddygfeydd meddygon teulu? - ymateb Dr Singh oedd bod y torbwynt yn agos iawn a'i bod yn poeni bod cleifion yn ymwybodol o hyn ac nad ydynt felly yn dod i'r feddygfa, hyd yn oed pan fyddent yn dioddef; gofynnwyd a oedd y cyllid y pen a dderbynnir gan feddygfeydd wedi lleihau - ymateb Dr Singh oedd bod cyllid y Bwrdd Iechyd yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn a bod meddygfeydd yn cael eu hymestyn i'r eithaf gyda'r cyllid y pen a dderbynnir ganddynt ar hyn o bryd.

Yna gwahoddwyd Dr Parry, Dr Rashford a Dr Roberts o Feddygfa Cadwgan i annerch y Cyngor gan y Maer. Dechreuodd Dr Roberts trwy ddweud nad oedd yma i amddiffyn ymarferiad cyffredinol, oherwydd roedd llawer o ardaloedd ar draws y DU yn teimlo'r un wasgfa a meddygfeydd yr ardal hon. Fodd bynnag, roedd yn destun pryder bod mwy o feddygon yn ymddeol yn gynnar ac nad oedd y nifer angenrheidiol o feddygon newydd yn dod ymlaen i gymryd eu lle. Ychwanegodd nad oedd yn sicr bod hyn o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd, oherwydd mae hwy dan bwysedd cyllidebau. Cyfeiriodd, fodd bynnag, at ei bryderon personol ei hun bod gan y Llywodraeth agenda anddatganiedig a dywedodd ei fod yn angenrheidiol i'r pryderon hyn cael eu trafod ar y lefel uchaf. Cyfeiriodd at fodel 'Alaska' sy'n cael ei arwain mewn nifer o lefydd ond na phrofwyd yn helaeth yn y DU hyd yn hyn.

Cyfeiriodd Dr Parry at ymdrechion i annog Meddygon Teulu sydd newydd raddio, i ddod i Ogledd Cymru a mynegodd ei bryderon byddai ailgyflwyno tal am bresgripsiwn yn achosi fwy o gostau gweinyddol a biwrocratiaeth gydag ychydig iawn o arbedion ariannol. Derbyniodd bod gan nyrsys a ffisiotherapyddion a.y.b. eu rhan i chwarae, ond datganodd ei bryderon bod cyllid Meddygon Teulu wedi gostwng o 11% o gyllideb GIG i 7-8% ers i gytundebau newydd Meddygon Teulu cael eu cyhoeddi yn 2004. Nid gofal toredig yw'r peth gorau i gleifion a rhaid i'r flaenoriaeth fod ar gadw cleifion allan o ysbytai lle bynnag may hyn yn bosibl. Byddai symud cyllidebau o ofal iechyd eilaidd i ofal iechyd cychwynnol yn helpu gyda hyn.

Dilynwyd hyn gyda chwestiynau, yn cynnwys pryderon nad yw'r Llywodraeth i weld i fod yn gwrando ar bryderon Meddygon Teulu - ymateb Dr Roberts oedd nad oedd Meddygon yn enwog am gwyno ond yn hytrach yn penderfynu gadael y proffesiwn, rhai ohonynt yn eu pedwardegau (rhyw ugain mlynedd cyn eu hamser); a yw'r llywodraeth am i ni weld mwy o bobl yn talu i fynd yn breifat? Ymateb Dr Roberts mai yn ei farn bersonol ef, dyna oedd yr achos; pa mor bell ymlaen yw'r cynlluniau am ysgol feddygol yng Ngogledd Cymru? Ymateb Dr Parry oedd nad oeddynt yn symud ymlaen o gwbl ac ni fydd yn digwydd ar unrhyw adeg fuan yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai cael mwy o swyddi hyfforddi yn helpu i gadw'r rhai hynny o'r ardal a hoffai aros a gweithio yma, ond fe all gwaith hyfforddwr fod yn galed ar Feddygon Teulu a chaiff llawer o'r gwaith ei wneud yn eu hamser eu hunain; sut ymatebodd y Bwrdd Iechyd i ymdrechion i helpu denu Meddygon Teulu newydd i Ogledd Cymru? - cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol, a ddefnyddir i annog pobl i feddwl am y dewis o gael aros yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, pe bae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn comisiynu'r gwaith hwn, byddai'n ymddangos i fod yn ddull o farchnata yn unig. Dywedodd Dr Parry bod angen am gytbwysedd rhwng gonestrwydd a rhesymau dros wneud newidiadau a hybu agweddau cadarnhaol o ymarferiad Meddygon Teulu.

Diolchodd y Maer i holl gynrychiolwyr y Meddygon Teulu am fod yn bresennol ac am rannu eu sylwadau a'u gofidion. Yna gadawsant y cyfarfod ynghyd a'r wasg.

**b** Cyflwynodd y Clerc ymateb o un Feddygfa leol arall, yn datgan nad oeddynt yn cael unrhyw broblemau gyda recriwtio ar hyn o bryd ac fe nodwyd nad oedd y meddygfeydd eraill wedi gallu anfon cynrychiolwyr.

**c** Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth e-bost oddi wrth FIPBC yn cynnig dod i'r cyfarfod hwn neu i un yn y dyfodol.

***Penderfynwyd, yn y lle cyntaf, gwahodd cynrychiolydd o FIPBC i gyfarfod yn y dyfodol i ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Meddygon Teulu.***

**57/16 <u>Cofnodion:</u>**

**a**. ***Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion***

***i. Cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Ebrill 2016.***

***ii. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2016.***

**b.** ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***

***i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2016.***

***ii Pwyllgor Dyfarnu Gwobrwyon i Wirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 16eg Mawrth 2016***

***iii Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 30ain Mawrth 2016***

***iv Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 5ed Ebrill 2016.***

**58/16 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>**

**a. Cofnod 415/15(a) - Gwobrwyo Gwasanaeth Hir:**

***Penderfynwyd gohirio'r cyflwyniad o'r wobr i'r Cynghorydd Chris Hughes am ei wasanaeth hir tan y cyfarfod nesaf am ei fod mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu CBS Conwy heno, a nodi bod yna aelod arall o'r staff rhan amser sydd hefyd yn gymwys am wobr am wasanaeth hir y gellir ei gyflwyno ar yr un adeg.***

**b. Cofnodion 412/15 a 9/16 - Penodi Cynrychiolwyr ar Fudiadau Allanol:**

***Penderfynwyd gwneud y newidiadau canlynol i benodiadau i fod yn aelodau o Fudiadau Allanol:***

***i Siambr Fasnach Bae Colwyn:*** *Cynghorydd Mrs G. Baker i gymryd lle Cynghorydd D. Griffiths*

***ii Grŵp Mynediad Conwy:*** *Cynghorydd P. Richards i gymryd lle Cynghorydd Mrs V. Perry*

***iii Cadetiaid Morol Conwy:*** *Cynghorydd J. Pearson i gymryd lle Cynghorydd G. Ward*

***iv Grwp Ymgynghorol Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Y Glyn:*** *Cynghorydd Mrs L. Edwards i gymryd lle Cynghorydd G. Ward.*

***v. Cymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos:*** *Cynghorydd Mrs G. Baker (penodiad newydd)*

***vi Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:*** *Cynghorydd S. Williams (swydd newydd)*

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i bob cynrychiolydd a benodwyd i adrodd yn ôl yn rheolaidd ar unrhyw gyfarfod a fynychwyd ganddynt.***

**c. Argymhellion y Pwyllgorau:**

***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion:***

*i.* ***Cofnod 22/16 - Penodi Dirprwy Maer:*** Amnewid Rheolau Sefydlog 2(i) i 2(l) mewn perthynas â phenodi Dirprwy Maer, fel y manylir arno yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

*ii* ***Cofnod 28/16 - Polisi Cyflog: Cymeradwyo a mabwysiadu'r datganiad byr ar Bolisi Cyflog, fel y manylir arno yn Atodlen 'C' yn y Cofnodion hynny.***

*iii* ***Cofnod 30/16 - Gwisg y Maer: Rhoi awdurdod i brynu dwy wisg newydd i'r Maer gyda rhimyn o ffwr ffug a ddwy het newydd (dyn a dynes) am gyfanswm o £2,940.***

*iv* ***Cofnod 45/16(e) - Cau Cynhyrchion Pinewood: Ysgrifennu at GBS Conwy i fynegi pryderon am y bwriad i'w gau.***

*v.* ***Cofnod 48/16 - Asiantaeth Diogelu Bywyd ag Achub o'r Môr: Anfon llythyr o gefnogaeth mewn egwyddor fel y gwelir yn y cofnod.***

*vi.* ***Cofnod 49/16 - Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig:*** Derbyn enwebiad Cynghorydd Dr S. Roy i lenwi'r safle gwag ar yr Is-Bwyllgor a nodi fe gynhelir cyfarfod yn fuan i drafod hurio motiff i'r lampau stryd ar gyfer 2017-2019.

vii ***Cofnod 50/16(c) - Ffenestri Siopau Gwag: Cefnogi menter THI i ddefnyddio ffenestri siopau gwag ar gyfer arddangosfeydd siopau elusen***

**ch** ***Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

**59/16 <u>Amserlen Pwyllgorau 2016/17:</u>**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o'r amserlen cyfarfodydd am 2016/17 a gymeradwywyd yn flaenorol.

**60/16 <u>Pwyllgorau:</u>**

**a.** ***Penderfynwyd ailbenodi'r Pwyllgorau canlynol:***

***i Dyfarnu Gwobrwyon i Wirfoddolwyr***
***ii Colwyn yn ei Blodau***

**b.** Ar gais gan Gynghorydd Dr S. Roy, gofynwyd i'r Aelodau ystyried dulliau i alluogi mwy o aelodau cael y cyfle i fod yn Gadeiryddion neu Is-Gadeiryddion Pwyllgorau neu Is-Bwyllgorau. Fe nodwyd mai'r ddefod ac arfer oedd i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y ddau brif Bwyllgor i gael eu hailethol pob blwyddyn ond i ddal y swydd am ddwy flynedd. Gall pob aelod o'r pwyllgorau cael eu henwebu i'r swyddi hyn pob dwy flynedd, ond fel arfer, yr Is-Gadeirydd bydd yn olynu'r Cadeirydd. Bydd yr Is-Bwyllgorau yn ethol eu Cadeiryddion eu hunain pob blwyddyn ac fel arfer gall unrhyw aelod cael ei enwebu. Fe nodwyd bod gan lawer o aelodau profiad o fod yn Gadeirydd ar wahân i'w swyddogaeth

ar y Cyngor Tref ac fe anogwyd pob aelod, felly, i roi eu henwau ymlaen pan fo'r swyddi hyn yn cael eu hystyried.

**61/16 Y Cyfrifon Blynyddol a'r Archwiliad:**

**a.** Dosbarthwyd copi o Ddatganiad Cyfrifon drafft 2015/16 gan y Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol a gwahoddwyd cwestiynau arno gan yr Aelodau.

**b.** Cyflwynodd y Clerc Canlyniad Drafft Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2016 a chyfeiriodd sylw'r Aelodau at y Datganiad Llywodraethol Blynyddol (rhannau un a dau).

***Penderfynwyd cymeradwyo Datganiadau Canlyniad Cyfrifon Blynyddol a Datganiad Llywodraethol Blynyddol y Cyngor am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2016 a gofyn i'r Clerc anfon y rhain ymlaen at yr Archwilydd Allanol erbyn y dyddiad angenrheidiol***

**c.** Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, Adroddiad yr Archwiliad Mewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2016. Fe nodwyd bod y Gofrestr o asedau wedi cael ei ddiweddaru cyn cwblhau'r Datganiadau Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2016.

***Penderfynwyd derbyn a nodi adroddiad yr Archwilydd Mewnol.***

**62/16 Cynllun Gwaith 2016/17:**

***Penderfynwyd gohirio diweddaru'r Cynllun Gwaith tan y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 18fed Gorffennaf.***

**63/16 Cais am Ymweliad Swyddogol:**

Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried am ymweliad swyddogol gan gynrychiolwyr o Lysgenhadaeth y Congo. Fe nodwyd bod angen cadw at rai protocolau penodol ar gyfer ymweliad Llysgenhadol swyddogol.

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost dilynol yn awgrymu dydd Gwener 24ain Mehefin ar gyfer y fath ymweliad. Fe nodwyd bydd y Clerc ar ei gwyliau ar y diwrnod hwnnw.

***Penderfynwyd penodi dirprwyaeth fechan, i gynnwys y Maer, y Dirprwy Faer a Chynghorwyr S. Roy, L. Edwards a D. Griffiths a cheisio amser a fyddai'n hwylus ar gyfer ymweliad swyddogol, efallai i gynnwys hurio bws mini i ymweld â rhai o'r safleoedd lleol pwysig sydd â chysylltiad â'r Congo.***

**64/16 Bathodynnau Adnabod i Gynghorwyr:**

Fe nodwyd cais a dderbyniwyd am fathodynnau adnabod i'r aelodau newydd a gofynnodd y Clerc faint oedd eu hangen (y dyddiad cau i fod yr un a bathodynnau'r aelodau presennol).

***Penderfynwyd rhoi awdurdod i brynu bathodynnau adnabod newydd i'r Cynghorwyr Mrs G. Baker, A. Mason, P. Richards a C. Wood.***

**65/16. Proms yn y Parc:**

Cynhaliwyd raffl i ailddosbarthu'r ddau docyn ar gyfer cyngerdd Lionel Ritchie a'r deg tocyn ar gyfer Proms yn y Parc ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod i am 8.00 p.m. ……………………. Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 6$^{TH}$ JUNE 2016**

**PRESENT:** The Mayor, Cllr J Davies
Cllrs: Mrs G Baker; Mrs L Edwards; R Foreman; D Griffiths; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; Mrs V Perry, P Richards; Dr S Roy; S Taylor; G Ward; S Williams

**OFFICER:** Mrs C Earley

**IN ATTENDANCE:** Dr Singh, Dr Nagarej and Mr Anderson, Penrhyn Bay Surgery
Dr Parry, Dr Ratchford and Dr Roberts, Cadwgan Surgery
Member of the Press

**90/11 Apologies for Absence:**

Apologies for absence were received from Cllrs: W Bagnall, C Hughes, A Khan, A Mason, C Perry, Mrs V Smith, C Wood

**91/11 Announcements:**

There were no announcements from the Mayor.

**92/11 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**93/11 Visitors to the Council:**

*a)* The Mayor welcomed representatives from Penrhyn Bay and Cadwgan GP surgeries, who had been invited, along with other surgeries serving Bay of Colwyn residents, to address the Council regarding any concerns they may currently have about GP recruitment.

Dr Singh was invited to speak first and he outlined the issues raised in the surgery's recent newsletter, which had been brought to the attention of the Town Council and which had highlighted the difficulties being experienced due to the numbers of retiring GPs, difficulty recruiting new GPs, increased patient/GP ratios and the challenges in providing a good standard of care. He made reference to reducing healthcare budgets and increased in demand for primary care, due to an ageing population. Dr Singh explained that his surgery had decided to take a proactive approach in explaining these difficulties and challenges to patients and supporting health board initiatives to provide closer links with nursing, physiotherapy, social care services and occupational therapy etc., to relieve pressure on GPs.

Questions were then invited from Members and these covered the following matters/concerns: the loss of 'family doctors' and difficulty in getting appointments to see a GP – Dr Singh responded that society has changed and

there is now more monitoring of care and encouragement of complaints to help raise standards, which has lots of positives but has led to a slow degradation of the value that the profession once enjoyed, he also commented that policies are dictated by guidelines, but that these are made for one condition and do not take into account the complex medical history of patients; it was queried whether free prescriptions had added to pressures on GPS – Dr Singh responded that in his view people come to see him with stories and problems and are not necessarily looking for prescriptions; how close are GP surgeries to breaking point? – Dr Singh responded that they are quite close and he is concerned that patients are aware of this and do not come to the surgery, even when suffering; it was queried whether the funding per head that surgeries receive has gone down – Dr Singh responded that the Health Board's funding is being cut year on year and surgeries are very stretched with the funding per head that they currently receive.

The Mayor then invited Drs Parry, Rashford and Roberts from Cadwgan Surgery to address the Council. Dr Roberts opened by saying he was not here to defend General Practice, as there are many areas across the UK feeling the same pinch as surgeries in this area. However, it is a worrying sign that more doctors are retiring early and the required number of new doctors are not coming forward to replace them. He added that he was not sure this was within the Health Board's control, as they are governed by budget pressures. He instead referred to his personal fears of an unspoken Government agenda and stated that concerns need to be taken to the highest level. He referred to the 'Alaska' model, which is being piloted in several areas but is still largely untested across the UK.

Dr Parry then spoke about efforts to encourage newly qualified GPs to come to North Wales and stated his concerns that reinstating prescription charges would just cause extra administration and bureaucracy and result in little real savings. He added that continuity of care is by far the most important thing in general practice. He accepts that nurses and physios etc all have a role to play, but stated concerns that funding for GPs has dropped from 11% of the NHS budget to 7-8% since new GP contracts were issued in 2004. Fragmented care is not best for patients and the priority needs to be keeping patients out of hospital wherever possible. Moving budgets from secondary to primary care would help this.

Questions then followed, including: concerns about why the government didn't seem to be listening to GPs concerns – Dr Roberts responded that Doctors are not known to whinge and are instead resorting to leaving the profession, some in their forties (some twenty years early); does government want to see more people paying to go privately? – Dr Roberts responded that it was his personal view that this was the case; how far advanced were plans for a medical school in North Wales? – Dr Parry responded that they were not advanced at all and it will not happen anytime soon, however, more training posts would help to keep those from the area who want to stay and work here, but being a trainer is tough on the GP who has to do lots of work in his/her own time; how has the Health Board responded to / helped efforts to attract new GPs to North Wales? – there has been a positive response on social media, which is being used to encourage people to think about North Wales as an option, however, it BCUHB were to commission this work, it would seem like just a marketing ploy. Dr Parry stated that their needed to be a balance between honesty and reasons for making changes and promoting the positive aspects of GP practice.

The Mayor thanked all of the GP representatives for their attendance and sharing their views and concerns and they and the press then retired from the meeting.

*b)* The Clerk submitted a response from one other local Surgery, stating they were not experiencing problems with recruitment at the present time and it was noted that the other surgeries had been unable to send representatives.

*c)* The Clerk submitted e-mail correspondence from the BCUHB offering to attend this or a future meeting.

***Resolved, in the first instance, to invite a representative from BCUHB to a future meeting to respond to the concerns raised by the GPs.***

**94/11** **Minutes**:

*a)* ***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of:***
**i)** ***The last meeting of the Council, held on 18th April 2016.***
**ii)** ***The Annual Meeting of the Council, held on 9th May 2016.***

*b)* ***Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***
**i)** ***The General Purpose & Planning Committee, held on 15th March 2016.***
**ii)** ***The Volunteer Awards Committee, held on 16th March 2016.***
**iii)** ***The Policy & Finance Committee, held on 30th March 2016.***
**iv)** ***The General Purposes & Planning Committee, held on 5th April 2016.***

**95/11** **Matters Arising from Those Minutes:**

*a)* **Min. 415/15(a) – Long Service Award:**

***Resolved to defer presentation of a long service award to Cllr Chris Hughes to the next meeting, due to his attendance at a CCBC Scrutiny Committee meeting this evening, and to note that there is another member of part-time staff who also qualifies for a long service award which could be presented at the same time.***

*b)* **Min. 412/15& 9/16 – Appointment of representatives to Outside Bodies**:

***Resolved to make the following changes to appointments of members to Outside Bodies:***
**i)** ***Colwyn Bay Chamber of Trade****: Cllr Mrs G Baker to replace Cllr D Griffiths*
**ii)** ***Conwy Access Group****: Cllr P Richards to replace Cllr Mrs V Perry*
**iii)** ***Conwy Sea Cadets****: Cllr J Pearson to replace Cllr G Ward*
**iv)** ***Fair Glen Management Advisory Group****: Cllr Mrs L Edwards to replace Cllr G Ward*
**v)** ***Rhos on Sea Traders Association:*** *Cllr Mrs G Baker (new appointment)*
**vi)** ***Wellbeing of Future Generations Champion:*** *Cllr S Williams (new role)*

***Further resolved to request that all appointed representatives report back regularly on any meetings they attend.***

*c)* **Recommendations of the Committees:**

***Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the***

**i)** ***Min. 22/16 – Appointment of Deputy Mayor:*** To amend Standing Orders 2(i) to 2(l) in connection with the appointment of the Deputy Mayor, as detailed in Schedule 'A' attached.

**ii)** ***Min.28/16 – Pay Policy: To approve and adopt a brief statement on Pay Policy, as detailed in Schedule 'C' to those minutes.***

**iii)** ***Min. 30/16 – Mayoral Robes: To authorise the purchase of two new Mayoral robes with fake fur trim and two replacement hats (ladies and gents), at a total cost of £2,940.***

**iv)** ***Min. 45/16(e) – Closure of Pinewood Products: To write to CCBC to state concern about the proposed closure.***

**v)** ***Min. 48/16 – The Lifeguarding and Aquatic Rescue Agency: To send a letter of support in principle, as detailed in the minutes.***

**vi)** ***Min. 49/16 – Christmas Lights Sub-Committee:*** To accept a nomination for Cllr Dr S Roy to fill the vacancy on the sub-committee and note that a meeting will be arranged soon to discuss the hire of lamp column motifs for 2017-2019.

**vii)** ***Min. 50/16(c) – Empty Shop Windows: To support the THI initiative for charity shop displays in empty shop windows.***

*d)* ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

**96/11** **<u>Meeting Dates 2016/17:</u>**

The Clerk submitted, for information, a copy of the previously approved timetable of meetings for 2016/17.

**97/11** **<u>Committees:</u>**

*a)* ***Resolved to re-appoint the following Committees:***
**i)** ***Volunteer Awards***
**ii)** ***Colwyn in Bloom***

*b)* At the request of Cllr Dr S Roy, members were asked to consider ways in which more members could have the opportunity to act as Chair or Vice-Chair of Committees or Sub-Committees. It was noted that it was custom and practice for the Chairmen and Vice-Chairmen of the two main committees to be re-elected annually, but to serve a two year term. All committee members are able to be nominated for these positions every two years, but the Vice-Chairman would usually succeed the Chairman. The sub-committees elect their own Chairman annually and any member can usually be nominated. It was noted that many members have chairmanship experience outside of their Town Council role and all members were therefore encouraged to put their names forward when these positions are being considered.

**98/11 Annual Accounts and Audit:**

*a)* The Clerk/RFO submitted a copy of the Draft Statement of Accounts for 2015/16 and invited any questions from Members.

*b)* The Clerk submitted the Draft Annual Return for the Year Ended 31st March 2016 and referred members to the Annual Governance Statement (parts one and two).

***Resolved to approve the Council's Annual Return Accounting Statements and Governance Statement for year ended 31st March 2016 and instruct the Clerk to forward these to External Audit by the required date.***

*c)* The Clerk submitted, for information, the Internal Audit Report for y/e 31st March 2016. It was noted that the Asset Register had been updated prior to completion of the Accounting Statements for year ended 31/3/16.

***Resolved to receive and note the report of the Internal Auditor.***

**99/11 Action Plan 2016/17:**

***Resolved to defer updating the Action Plan to the next meeting, due to be held on 18th July.***

**100/11 Request for Official Visit:**

The Clerk submitted, for consideration, a request for an official visit by representatives of the Congolese Embassy. It was noted that there are certain protocols that would need to be followed for an official ambassadorial visit.

The Clerk then tabled a follow-up e-mail suggesting a possible visit on Friday 24th June. It was noted that the Clerk would be on annual leave that day.

***Resolved to appoint a small delegation, to include the Mayor, Deputy Mayor and Cllrs S Roy, L Edwards and D Griffiths and to seek to arrange a convenient time for an official visit, possibly to include hire of a minibus to visit some of the local Congolese sites of importance.***

**101/11 Councillor ID Badges:**

It was noted that a request has been received for ID badges for newer members and the Clerk queried how many are required (expiry date to be same as existing members badges).

***Resolved to authorise the purchase of new Cllr ID badges for Cllrs: Mrs G Baker, A Mason, P Richards and C Wood.***

**102/11 Proms in the Park:**

A draw was held to reallocate two tickets for the Lionel Ritchie concert and ten tickets for the Proms in the Park event in September.

The meeting closed at 8.00pm ………………………… Chairman